

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Penylan,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 28 Tachwedd
2018

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mawrth 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Rhoi gofal diogel ac effeithiol.....	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?.....	25
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	27
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	28
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Penylan yn 86 Ffordd Penylan, Caerdydd, CF23 5HX, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 28 Tachwedd 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth Practis Deintyddol Penylan yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y cleifion. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gref ac roedd y polisiau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i gefnogi'r practis, y cleifion a'r staff.

Gwnaethom argymhell bod y practis yn symud ei gyffuriau a'i gyfarpar argyfwng i fan haws ei gyrraedd.

Roedd cofnodion clinigol, yn ogystal â ffeiliau'r staff a gwybodaeth am y practis, yn cael eu cynnal i safon uchel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd dystiolaeth bod perchnogion y practis yn rheoli ac yn arwain yn gadarn.
- Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym ei fod yn cael ei drin ag urddas a pharch.
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-x yn ddiogel
- Roedd y tîm staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau, roeddent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n fedrus ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu priodol.
- Dylai'r practis drefnu bod bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei roi yn nhoiled y staff
- Dylai cyffuriau argyfwng ynghyd â'u halgorithmau priodol gael eu storio mewn cynwysyddion/bagiau ar wahân â labeli arnynt

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Penylan yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, tri hylenydd, un therapydd, tair nyrs ddeintyddol, un derbynnydd ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mae'r practis yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd pawb a gwblhaodd yr holiadur fod y gwasanaeth yn rhagorol neu'n dda iawn.

Roedd y practis yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio adborth gan gleifion drwy amrywiaeth o ddulliau ac roedd yr holl adborth yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd tîm. Mae'r practis yn ystyried dulliau ychwanegol o roi adborth i'w gleifion.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais tuag at gleifion.

Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 34 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y mwyafrif o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn gleifion yn y practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan gleifion ar yr holiaduron mae'r canlynol:

“Esboniadau clir iawn. Yn barod i helpu ac yn gyfeillgar iawn”

“Rwyf wastad wedi bod yn hapus iawn â'r driniaeth rwyf i a'm teulu wedi'i chael”

“Gwasanaeth gwych, cyfeillgar”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo; roedd un claf yn awyddus bod mwy o apwyntiadau ar gael gyda hylenydd:

“Efallai sicrhau bod mwy o apwyntiadau gyda hylenydd ar gael a chynnig opsiynau o ran y dulliau glanhau, e.e. defnyddio dŵr”

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Yn yr ardaloedd aros, gwelsom fod detholiad o wybodaeth ar gael am iechyd y geg a thriniaethau deintyddol. Roedd folder gwybodaeth i gleifion hefyd a oedd yn cynnwys nifer o ddogfennau gan gynnwys ffioedd am driniaethau deintyddol preifat, taflen gwybodaeth i gleifion, gwybodaeth am y tîm, y weithdrefn gwyno, y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth, safonau ymddygiad, mynediad i wybodaeth, polisi ar gyfer canslo ar fyr rybudd, amseroedd agor, ac ymrwymiad y practis i'w gleifion. Roedd yn cynnwys nifer o gopiâu o'r weithdrefn gwyno er mwyn i'r cleifion gymryd copi.

Yn ddieithriad, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal gydag urddas

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y staff yn gwrtais ac yn foesgar i'r cleifion, a hynny dros y ffôn ac wyneb yn wyneb â'r rhai a oedd yn ymweld â'r practis. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent byth yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol pan oeddent yn cael sgwrs â chlaf dros y ffôn. Ond pe bai angen, neu pe bai angen cynnal sgwrs breifat wyneb yn wyneb, gallent ddefnyddio'r ffôn yn ystafell y staff neu mewn deintyddfa wag.

Nodwyd bod gan y practis bolisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion a hysbysiad preifatrwydd cleifion.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff wrth ymweld â'r practis. Dywedodd un claf wrthym:

“Mae hwn yn bractis effeithlon, lle rwy'n teimlo fy mod yn cael fy mharchu a'u bod yn gwrando arnaf”

Ar y cyfan, roedd gwybodaeth mewn llawysgrifen neu wybodaeth electronig am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif wedi'i diogelu. Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi rheoli cofnodion a pholisi diogelu data priodol.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol hefyd i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Nodwyd gennym fod 9 Egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ wedi'u cynnwys yn y polisi ymrwymiad i gleifion a oedd yn y ffolder gwybodaeth i gleifion, ac wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Mae'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn rhan o unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth, cymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny, gan nodi eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Gwelsom bosteri yn dangos costau triniaeth breifat a chostau triniaethau'r GIG wedi'u harddangos yn ardal y dderbynfa. Pan fo'n briodol, dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod bob amser yn cael eu hysbysu'n llawn am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Gwnaethom nodi nifer o bolisiâu perthnasol, gan gynnwys polisi cleifion newydd a pholisi ffioedd a thalu.

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017, roedd gan y practis daflen gwybodaeth i gleifion ar gael yn y dderbynfa, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol ac a oedd ar gael ar gais yn y practis.

Gwelsom fod oriau agor y practis a'r rhif ffôn mewn argyfwng yn cael eu harddangos y tu allan i'r practis, ynghyd ag enwau a chymwysterau'r deintyddion i gyd.

Nodwyd gennym fod polisiâu ar waith yn ymwneud â diogelu data, gan gynnwys hysbysiad preifatrwydd ar ddiogelu data cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

¹ <https://standards.gdc-uk.org/>

Dywedwyd wrthym y gallai'r staff argraffu nifer o ddogfennau ar gais, megis y daflen gwybodaeth i gleifion neu'r polisi cwynion mewn print bras. Yn ogystal, mae chwyddwydr a sbectol farifocal ar gael yn y dderbynfa.

Mae gan y practis wefan, a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn cynnwys manylion y triniaethau deintyddol preifat y mae'n eu rhoi, ynghyd â rhestr brisiau. Mae hefyd yn rhoi manylion tîm y practis, yr oriau agor a sut i gael gafael ar driniaeth ddeintyddol frys. Roedd system trefnu apwyntiad electronig hefyd.

Gofal amserol

Roedd gwybodaeth am sut y gallai cleifion gael gafael ar ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau wedi'i harddangos wrth fynedfa'r practis ac ar y wefan ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis. Dywedodd tua chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Dywedwyd wrthym fod nifer fach o apwyntiadau yn cael eu dyrannu ar gyfer apwyntiadau brys, felly pe bai claf yn cysylltu yn ystod oriau agor gyda phroblem, y gwneir pob ymdrech i'w gweld ar y diwrnod hwnnw.

Dywedodd ychydig dros hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn ei chael hi'n "hawdd iawn" neu'n "eithaf hawdd" cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau y câi'r cleifion eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn cynnig apwyntiad arall, pe byddai hynny'n briodol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Mae'r practis yn rhoi triniaethau fel y nodir yn ei Ddatganiad o Ddiben².

Dangosodd adolygiad o gofnodion deintyddol y cleifion fod cleifion yn cael eu holi ynghylch eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis. Dangosodd yr adolygiad hefyd dystiolaeth bod cleifion yn cael eu holi am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol.

Lle y bo'n briodol, dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Nid oedd gan y practis faes parcio ond roedd digon o le i barcio ar y stryd gerllaw. Roedd llawr gwaelod y practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a phobl ag anawsterau symudedd. Roedd y dderbynfa, yr ardal aros a'r deintyddfeydd ar y llawr gwaelod, ac roedd y practis wedi ymdrechu i sicrhau bod pob un o ardaloedd cyhoeddus y practis yn hygyrch i bawb, gan gynnwys rhoi llethr addas i gadeiriau olwyn yn lle grisiau mewnol.

Roedd toiled y cleifion hefyd ar y llawr gwaelod, ac roedd yn cynnwys canllawiau a chloch alw ac roedd yn addas i ddefnyddiwr cadair olwyn. Nodwyd gennym hefyd fod y practis wedi darparu uned newid babanod.

Roedd gan y practis bolisiâu priodol ar waith i ddiogelu hawliau pobl, gan gynnwys polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a pholisi anabledd.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Pan fo'n berthnasol, roedd y polisi'n gyson â

² Dogfen sy'n ofynnol yn gyfreithiol yw Datganiad o Ddiben, sy'n cynnwys gwybodaeth safonol am wasanaeth darparwr.

phroses gwynion y GIG "Gweithio i Wella"³, ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat, roedd yn gyson â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017⁴.

Rheolwr y practis oedd yr unigolyn a enwebwyd fel y prif gyswllt ar gyfer cwynion. Roedd gan y practis ffolder cynhwysfawr ar gyfer ffeilio cwynion, a oedd yn cynnwys cofnodi natur y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad ynghyd ag unrhyw wersi a ddysgwyd.

Roedd blwch awgrymiadau cleifion yn y dderbynfa. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gofyn i gleifion, ar ôl iddynt gael eu triniaeth, am eu barn ar eu hapwyntiad. Estynnir gwahoddiad iddynt hefyd roi adborth drwy e-bost a/neu Google Review, ac mae'r prif ddeintydd bob amser yn ymateb i'r rhain. Roedd y practis hefyd yn cofnodi unrhyw adborth anffurfiol a gafwyd. Caiff yr holl adborth ei drafod yn y cyfarfodydd tîm. Roedd y practis hefyd yn ymwybodol o unrhyw gleifion newydd a oedd wedi dod atynt o ganlyniad i argymhelliad gan glaf presennol. Nid oedd y practis wedi cynnal unrhyw arolygon cleifion eto ond roedd hyn yn cael ei ystyried fel ffordd arall o gasglu adborth gan gleifion.

Mae'r practis yn rhoi adborth i gleifion drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac mae ei gleifion preifat yn cael llythyr bob blwyddyn. Dywedwyd wrthym fod y practis hefyd yn ystyried sut y gall ddarparu adborth ychwanegol a gwybodaeth i gleifion drwy'r sgrin deledu yn yr ardal aros.

³ "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu oddi wrthynt. Mae pryderon yn cynnwys materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion, ac, mewn perthynas â chyrrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru

⁴ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/made/welsh>

Rhoi gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roedd cofnodion meddygol yn cael eu cadw i safon uchel ond cynghorir y practis i symleiddio ei ffurflen hanes meddygol.

Roedd y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel, yn ogystal â thystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r cleifion sy'n ymweld â'r practis.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn neu'n gymharol lân.

Yn allanol, roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Ar y cyfan, roedd y deintyddfeydd yn lân ac roedd yr offerynnau a'r cyfarpar yn cael eu storio'n briodol.

Nodwyd gennym fod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio mewn ffordd ddiogel yn y practis.

Gwnaethom nodi bod asesiad risg tân wedi'i gynnal ar ddechrau'r flwyddyn ac ymdriniwyd â phob cam gweithredu a nodwyd. Roedd cofnodlyfr rhagofalon tân yn dangos bod staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd ar y systemau a'r offer tân. Hefyd, roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau blynyddol ar y dyfeisiau diffodd tân a'r systemau tân. Nodwyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelwch tân priodol.

Roedd y practis yn cynnal nifer o asesiadau risg, gan gynnwys asesiad risg o'r practis ac asesiad risg iechyd a diogelwch.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n gywir ac yn ddiogel. Nid oedd bin cynhyrchion mislif yn nhoiled y staff ac mae angen unioni hynny.

Nodwyd gennym fod gan y practis lyfr 'Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR) a oedd yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi bod y poster iechyd a diogelwch, a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol, yn cael ei arddangos yn ystafell y staff.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis bolisi rheolaethau 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' (COSHH) a thafleddi data a oedd yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n beryglus i'w cyflenwi a chyfarwyddiadau ar ddefnyddio sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel.

Nodwyd gennym fod gan y practis bolisi parhad busnes a strategaeth adfer ar ôl trychineb a pholisi cymorth cyntaf ac argyfyngau meddygol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn nhoiled y staff

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau pwrpasol i lanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol fel yr argymhellir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru

(WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell yn lân ac yn daclus, a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau priodol ar waith.

Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith a gwelsom dystiolaeth fod y cofnodlyfrau ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio yn cael eu cadw ac roedd polisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, ac roeddent yn ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi.

Gwelsom dystiolaeth fod gan y rhan fwyaf o'r staff clinigol dystysgrifau ar ffeil yn cadarnhau eu bod wedi ymgymryd â hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol.

Yr unig bryder a oedd gennym o ran y maes hwn oedd bod yn rhaid mynd drwy'r ystafell ddihalogi i fynd i doiled y staff, a goblygiadau hyn ar gyfer rheoli heintiau, a gwnaethom ofyn i'r practis ystyried cynllun yr ystafell.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru a oedd yn cael ei arddangos ym mhob deintyddfa.

Roedd gan y staff y cyffuriau brys a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel ond roeddent yng nghornel bellaf un o'r deintyddfeydd. Byddem yn argymhell eu bod yn cael eu symud i fan haws ei gyrraedd. Gwnaethom hefyd argymhell bod y cyffuriau argyfwng yn cael eu storio ynghyd â'u halgorithmau priodol mewn cynwysyddion/bagiau ar wahân â labeli arnynt, unwaith eto er mwyn cael gafael arnynt yn hawdd.

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol

⁶ Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Nodwyd gennym fod system ar waith yn y practis ar gyfer sicrhau bod cyffuriau ac offer argyfwng o fewn eu dyddiadau defnyddio yn barod i'w defnyddio.

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd unigolyn yn dioddef ataliad cardio-anadlol ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddarau'n rheolaidd hyd at lefel o fedrusrwydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl⁷. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd nifer o'r staff clinigol ac anghlinigol wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf hefyd.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis storio ei adnoddau a'i gyffuriau argyfwng mewn ardal sy'n hawdd ei chyrraedd pe bai argyfwng.

Dylai'r practis storio ei gyffuriau argyfwng ynghyd â'u halgorythmau priodol mewn cynwysyddion/bagiau ar wahân â labeli arnynt.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed. Roedd rhifau cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol ar gael mewn atodiad i'r gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan. Byddem yn hefyd yn awgrymu eu bod yn cael eu cynnwys yn y polisiâu. Yn ogystal, roedd gan y practis bolisi hebryngwyr ac asesiad ar gyfer galluedd meddyliol.

Roedd pob aelod o'r staff ond dau wedi cael hyfforddiant ar amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Argymhellwn y dylai pob aelod o'r staff gwblhau'r hyfforddiant hwn.

⁷ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/>

Roedd trefniadau ar waith i'r staff godi unrhyw bryderon, a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny yn y practis. Roedd y practis wedi pennu swyddog arweiniol ar gyfer diogelu, sef y prif ddeintydd.

Roedd gan y staff clinigol a'r staff anghlinigol dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol mewn cyflwr gweithio da ac roedd yr ardaloedd a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil diogelu rhag ymbelydredd yn cael ei chadw'n gyfredol, ac roedd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Nodwyd gennym hefyd bolisi diogelu rhag ymbelydredd y practis.

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol⁸ a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol)⁹ 2000, roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

⁸ Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – <http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx>

⁹ http://www.legislation.gov.uk/ukSI/2000/1059/pdfs/ukSI_20001059_en.pdf

Mae'r practis yn ceisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddo'n barhaus er budd y cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis bolisi yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer archwiliadau clinigol. Ymhlith yr archwiliadau sydd ar waith ar hyn o bryd, mae'r canlynol; cofnodion clinigol, radiograffeg, rheoli heintiau a rheoli gwastraff a mynediad i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Nodwyd gennym fod polisiâu ar waith yn y practis yn nodi'r trefniadau ar gyfer derbyn cleifion ac asesu, diagnosisio a thrin cleifion gan gynnwys polisi cleifion newydd.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Er nad oedd adolygiadau gan gymheiriaid penodol yn cael eu cynnal, dywedwyd wrthym fod y deintyddion yn achub ar y cyfle i drafod materion clinigol yn y cyfarfodydd tîm. Mae'r cyfarfodydd yn cynnwys pob aelod o'r staff clinigol, a gaiff eu hannog i awgrymu ffyrdd o wella systemau a phrosesau. Un enghraifft yw newid i'r broses ddihalogi, a fabwysiadwyd ar ôl cyfarfod. Roedd cofnodion y cyfarfodydd hefyd yn cael eu cefnogi er mwyn sicrhau bod modd i staff nad oeddent ar gael i fynychu'r cyfarfod weld yr hyn a gafodd ei drafod. Yn ogystal, mae'r practis a thri phractis lleol arall yn cydweithio i ymgymryd â nifer o archwiliadau adolygiadau gan gymheiriaid.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi ymholi ynghylch ymgymryd ag adnodd datblygu practisau deintyddol Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Cymru. Mae'r 'Adnodd Matrics Aeddfedrwydd' yn adnodd datblygu practisau deintyddol sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol ac ar sut y maent yn gweithio.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig a chofnodion ar bapur, a nodwyd gennym fod y rhain yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu creu'n rheolaidd.

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar waith gan gynnwys hysbysiad diogelu data cleifion a pholisi diogelu data.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd proses cadw cofnodion o safon dda iawn yn cael ei dilyn, gan awgrymu bod gofal da wedi'i roi i gleifion. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn ac felly, rhaid canmol ansawdd y broses cadw cofnodion clinigol.

Byddem yn awgrymu bod y practis yn adolygu ei ffurflen hanes meddygol gyda'r nod o'i symleiddio. Byddem yn argymhell bod y ffurflen yn cael ei hadolygu ar ddechrau pob triniaeth ac yn cael ei chydlofnodi gan y deintydd. Gwnaethom nodi hefyd bod un deintydd yn defnyddio nifer o'i fyfoddau ei hun a oedd yn ei gwneud yn anodd dehongli nodiadau'r cleifion a byddem yn awgrymu y dylid rhoi'r gorau i'r arfer hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod pob hanes meddygol yn cael ei adolygu ar ddechrau pob cwrs o driniaeth ac yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth gadarn a llinellau atebolrwydd clir. Roedd Rheolwr y Practis yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd.

Roedd gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Gwnaethom nodi bod amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol ar waith. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Penylan, sef yr unigolyn cyfrifol¹⁰ a'r rheolwr cofrestredig hefyd¹¹. Gwelsom fod trefniadau arwain da ar waith yn y practis a bod pob aelod o staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

¹⁰ Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw unigolyn sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall yn y sefydliad, ac sy'n gyfrifol am oruchwyllo'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli.

¹¹ "Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwnaethom nodi bod darpariaeth i bob aelod o'r staff dystio eu bod wedi darllen y polisiâu ac wedi'u deall.

Gwelsom y Datganiad o Ddiben a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

Cadarnhaodd y prif ddeintydd ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau fel rheolwr cofrestredig o ran yr hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb neu newidiadau, sy'n rhaid eu hanfon at AGIC o dan reoliadau 25-29 o'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemnedd priodol ar waith ar eu cyfer. Gwelsom fod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a thystysgrif cofrestru AGIC y practis yn cael eu harddangos.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau'n ymwneud ag adnoddau dynol ar waith yn y practis er mwyn helpu i recriwtio a chadw staff, gan gynnwys polisi recriwtio, polisi hyfforddiant sefydlu i staff a pholisi ymrwymiad y practis i'r staff. Mae nifer o'r polisiâu hyn wedi'u nodi mewn llawlyfr i gyflogeion a oedd yn cael ei anfon drwy e-bost i bob aelod o'r staff.

Gwnaethom nodi bod gan bob aelod o'r staff contract cyflogaeth yn eu ffeiliau staff ac yn y ffolder polisi, roedd disgrifiadau swyddi ar gyfer nyrs ddeintyddol, rheolwr y practis a derbynydd. Gwelsom dystiolaeth hefyd o wybodaeth a gasglwyd ar adeg recriwtio, gan gynnwys geiradaon a dogfennau adnabod.

Gwelsom dystiolaeth bod arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol a'u dogfennu, ynghyd â chynlluniau datblygu lleol.

Dywedwyd wrthym pan fyddai staff asiantaeth yn cael eu defnyddio dros dro, fod gweithdrefn ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r systemau a'r prosesau sydd ar waith yn y practis. Roedd rhestr wirio ar gyfer staff dros dro yn dystiolaeth o hyn.

Gwelsom dystysgrifau yn dangos dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol ac anghlinigol, ar wahân i'r eithriadau yr ymdriniwyd â nhw yn gynharach yn yr adroddiad hwn, wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol

i'w rolau ac a oedd yn bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn, wedi'u llofnodi gan y staff er mwyn dangos eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd flaenorol. Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau clirio'r DBS wedi'u cynnal ar gyfer y staff clinigol a'r staff anghlinigol. Dywedwyd wrthym fod y practis yn adolygu'r rhain bob tair blynedd.

Mae'n ofynnol i'r staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B er mwyn amddiffyn y cleifion a nhw eu hunain yn erbyn yr haint. Darparodd y practis dystiolaeth o imiwnedd ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle gwnaethom gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Amlygiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Penylan

Dyddiad arolygu: 28 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diffyg cydymffurfio sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Tudalen 29 o 32

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Penylan

Dyddiad arolygu: 28 Tachwedd 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r practis drefnu bod bin cynhyrchion mislif yn cael ei roi yn nhoiled y staff	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992	Contract y practis â chwmni gwaredu gwastraff wedi'i ddiweddarau i gynnwys bin cynhyrchion mislif yn nhoiled y cleifion a thoiled y staff.	Stephen Clark	Cwblhawyd ym mis Ionawr 2019
Dylai'r practis storio ei adnoddau a'i gyffuriau argyfwng mewn ardal sy'n hawdd ei chyrraedd	2.6 Rheoli Meddyginiaethau;	Adnoddau argyfwng y practis wedi'u hail-leoli mewn un ddeintyddfa yn	Stephen Clark	Cwblhawyd ym mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>pe bai argyfwng.</p> <p>Dylai'r practis storio ei gyffuriau argyfwng ynghyd â'u halgorythmau priodol mewn cynwysyddion/bagiau ar wahân â labeli arnynt.</p>	<p>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adran 31(3)(b)</p>	<p>hytrach na'u cadw mewn coridor a deintyddfa. Holl gyffuriau meddygol wedi'u gwahanu i fagiau ar wahân ynghyd ag algorithmau. Mae pob bag wedi'u labelu'n glir a'i roi mewn un bocs fel bod modd i staff clinigol ac anghlinigol gael gafael arnynt yn hawdd.</p>		<p>Ionawr 2019</p>
<p>Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ym maes amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.</p>	<p>2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2017 Adranau 8 ac 14</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed eisoes. Bydd staff anghlinigol a nodwyd yn cwblhau hyfforddiant lefel 2 ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed drwy hyfforddiant deintyddol Isopharm. Caiff anghenion dysgu pob aelod o'r staff sy'n gweithio ym Mhractis Deintyddol Penylan eu hadolygu a'u hasesu'n barhaus yn unol â gofynion DPP y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.</p>	<p>Stephen Clark</p>	<p>12 wythnos o fis Ionawr 2019</p>
<p>Dylai'r practis sicrhau bod pob hanes meddygol yn cael ei adolygu ar ddechrau pob cwrs o driniaeth ac yn cael ei gydlofnodi gan y deintydd.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion; Rheoliadau Deintyddiaeth</p>	<p>Mae deintyddion/hylenyddion eisoes yn adolygu pob hanes meddygol ar ddechrau pob cwrs o driniaeth ac yn diweddar cofnodion cleifion yn</p>	<p>Stephen Clark</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifat 2017 adran 20	electronig. Yn dilyn yr arolygiad ym mis Tachwedd 2018, bellach mae'r ddogfen hanes meddygol yn cael ei chydlofnodi gan y deintydd neu'r hylenydd yn briodol, cyn cael ei sganio i nodiadau'r claf.		

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **Stephen Clark**
Teitl swydd: **Rheolwr y Practis**
Dyddiad: **27/01/2019**